

New Council Offices Coed Pella

NEWSLETTER



RHIFYN 7 – AWST 2018

Mae cynnydd yn parhau ar y safle gyda llai na thri mis nes y dyddiad cwblhau, trosglwyddo a symud i mewn i Goed Pella. Adroddwyd yng nghylchlythyr mis Awst llynedd bod y byrddau hysbysu lliwgar ar hyd Ffordd Conwy, wedi'u dylunio gan ysgolion lleol, wedi eu gosod a bod y ffrâm ddu yn cael ei godi wrth i'r gwaith allanol ddechrau. Ddeuddeg mis yn ddiweddarach ac mae'r byrddau hysbysu wedi cael eu tynnu, a gellir gweld y fynedfa i dderbynfa'r llawr gwaelod yn glir! Mae siâp mewnol y swyddfa yn dechrau siapio, gyda'r waliau mewnol, y dodrefn a'r arwynebau i gyd yn rhoi teimlad gwahanol i'r datblygiad. Dyna wahaniaeth mewn 12 mis!



Mae'r cladin allanol wedi cael ei gwblhau

Er bod cynnydd gwyach wedi cael ei wneud ar y safle, mae gwaith sylweddol yn parhau er mwyn sicrhau trosglwyddiad mor llyfn â phosib, pan fydd yr aelodau staff cyntaf yn symud i mewn i Goed Pella ym mis Hydref. Mae staff TG y Cyngor eisoes yn gweithio ar y safle i sicrhau bod y systemau rhwydwaith yn cael eu gosod cyn i bobl symud. Bu nifer o ymweliadau staff

dros y misoedd diwethaf, a trefnir dau ddiwrnod agored i staff allu profi eu gweithle a'u gofod swyddfa newydd, gydag ardal swyddfeydd y llawr cyntaf yn barod. Mae nifer o'r staff sy'n symud i mewn wedi dechrau cyffroi!

YR AMGYLCHEDD CYWIR AR GYFER CYFLEOEDD

Mae swyddogion y Cyngor, ynghyd â'r prif gontractwyr Bowmer & Kirkland a'r datblygwr Muse Developments Cyf wedi bod yn cydweithio'n agos iawn gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog, er mwyn darparu cyfleoedd dysgu i bobl ifanc yn ystod y broses adeiladu. Gwelodd rhaglen 'Get into Construction' Ymddiriedolaeth y Tywysog, sy'n targedu'r rheiny nad ydynt eisoes mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, saith fachgen ifanc yn mynd i'r Diwrnod Blasu a chael cyfle i dreulio wythnos gyda Choleg Llandrillo, gan ennill cymwysterau gwerthfawr a pherthnasol, a datblygu eu CV. Ar ôl treulio wythnos ddwys yn yr ystafell ddosbarth, aethant i'r safle yng Nghoed Pella am wythnos ym mis Mehefin.



Chris, Tom, Jordan, Jake, Fraser, Oliver a Marcus ar y safle yng Nghoed Coed Pella.

Rhoddyd nifer o wahanol swyddi iddynt gan A&B Engineering, sy'n gweithio ar elfennau mecanyddol a thrydanol y gwaith gosod, Sound Interiors, a oedd yn codi'r partiwn, a Keyclad oedd yn gosod y cladin. Ar ddiwedd y bythefnos, roeddent wedi ennill profiad gwerthfawr ar safle adeiladu cymhleth, ar raddfa fawr,

wedi derbyn hyfforddiant perthnasol a chymwysterau a'r hyder i ddilyn eu gyrfaedd eu hunain ac i ymchwilio i gyfleoedd gwaith.

Enillodd Fraser ac Oliver brentisiaethau o 18 mis gyda Brenig Construction, ac erbyn hyn mae Chris yn gweithio'n llawn amser gyda chontractwr toeau, ac mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn cydweithio'n agos gyda'r gweddill i ddod o hyd i'r swyddi cywir. "Dyma'r ail raglen 'Get into Construction' i ddigwydd yng Nghoed Pella, gyda phartneriaid yn cydweithio i newid bywydau pobl ifanc drwy ddarparu cyfle nad oedd yno o'r blaen. Rydym yn falch iawn o adeilad Coed Pella, ei edrychiad a beth mae'n ei olygu i'r Cyngor wrth foderneiddio ei ddull gweithredu, ac rydym llawn mor falch o roi cyfle i bobl ifanc yn y Sir i fod ar y safle hefyd, sydd yna'n magu hyder, profiad a chyfrifoldeb" meddai Bleddyn Evans, Rheolwr Prosiect Strategaeth Gofod Swyddfa.

Roedd cyfle o gydweithrediad arall o dan brosiect Coed Pella, rhwng y Cyngor, B&K, AGB Bae Colwyn, Crest Co-Operative a Veteran's Shed, lle cafodd nifer o siopau ar hyd Ffordd Abergele eu hailbeintio. B&K oedd yn cyflenwi'r deunyddiau, tra bo Crest yn cydlynu'r gwirfoddolwyr oedd yn peintio blaen y siopau.



Gwelliannau i flaen siopau Canol Tref Bae Colwyn

"Mae'r fenter blaen siopau mwyaf diweddar hwn yn ychwanegu i'r teimlad bod Coed Pella yn cael effaith positif ar edrychiad ac awyrgylch Canol y Dref, ac mae hynny cyn i'r staff symud i mewn a dechrau gwario yn y siopau. Rydym eisoes wedi gweld gwelliannau i rannau o Ganol y Dref wrth i nifer o fusnesau preifat fuddsoddi wrth ddisgwyl am agoriad Coed Pella. Rydym yn falch iawn o ymrwymiad B&K i'r Cynllun Gwerth Cymdeithasol, a'r cydweithrediad rhwng sawl partner" meddai Ingrid Lewis, Rheolwr Canol Tref Bae Colwyn.

Bydd nod y Cyngor i adleoli cannoedd o staff i Ganol y Dref yn debygol o ddod â thua

£1 miliwn o wariant ychwanegol bob blwyddyn, unwaith mae'r swyddfeydd yn llawn, a fydd yn siŵr o fod yn gatalydd ar gyfer buddsoddiad pellach yn yr ardal.

CYFATHREBU Â RHANDEILIAID

Mae cyfathrebu wedi bod yn rhan allweddol o'r Strategaeth Gofod Swyddfa wrth iddi dyfu, ac wrth i adeilad Coed Pella ddatblygu dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Mae'r cyfathrebu hwnnw yn parhau gyda nifer o rhanddeiliaid mewnol ac allanol, hen ac ifanc.

Ymwelodd Cyngor yr Ifanc Conwy, y safle ar noswaith braf a chynnes o haf ar ddechrau mis Mehefin, i weld yr adeilad ac i ofyn cwestiynau am wahanol elfennau o'r prosiect. "Roedd y bobl ifanc wedi mwynhau'r profiad o fynd ar y safle a gweld graddfa'r datblygiad, sy'n eithaf sylweddol, a deall yn well beth fydd yn digwydd o fewn yr adeilad, a pham mae'r Cyngor wedi comisiynu'r gwaith o adeiladu Coed Pella" meddai Dafydd Beattie, Swyddog Cyfranogi Pobl Ifanc Conwy Mae disgyblion o Ysgol Eirias hefyd wedi ymweld â'r safle, yn ogystal â myfyrwyr o Romania, oedd yn ymweld â Choleg Llandrillo!



Disgyblion Ysgol Eirias yn Swyddfa Safle B&K

Daeth Cangen Lleol Ffederasiwn Busnesau Bach i ymweld â'r safle i ddeall y cyfleoedd busnes a allai fod ar gael yng Nghanol Tref Bae Colwyn a'r ardal ehangach o ganlyniad i gannoedd o staff swyddfa yn symud i mewn i Goed Pella. "Roeddem y falch iawn o gael y cyfle gan y Cyngor i ymweld â'r adeilad eiconig hwn, a bu'n gyfle i Aelodau'r Ffederasiwn ofyn cwestiynau a chwalu mythau" meddai Alan Cooper, Cadeirydd Lleol Ffederasiwn Busnesau Bach.

Rhodddwyd cyflwyniad i Grŵp Mynediad Conwy ar ddatblygiad Coed Pella gyda ffocws ar y cyfleusterau hygyrch i ymwelwyr a staff unwaith y bydd wedi ei gwblhau. “Bydd Coed Pella yn darparu un o’r ychydig leoedd newid hygyrch o fewn y Sir ar ei lawr gwaelod, sy’n profi ein hymrwymiad a’n harweinyddiaeth mewn darparu cyfleusterau addas ar gyfer 'rheiny gyda phroblemau mynediad a symudedd” meddai Stephen Lea, Prif Reolwr Asedau, sy’n goruchwylio elfen y dyluniad i’r Cyngor.

DIGWYDDIADAU STAFF – 30 A 31 AWST

Bydd Swyddogion Tîm Prosiect yn darparu cyfle cynnar i staff sy’n symud i mewn i Goed Pella weld ardal waith wedi’i chwblhau’n llawn ar y llawr cyntaf ar ddiwedd mis Awst. Mae Bowmer & Kirkland wedi darparu mynediad cynnar i staff y Cyngor fel eu bod yn cael cyfle i weld y cyfleusterau gwych a’r amgylchedd waith ar ei ffurf orffenedig, misoedd cyn iddynt symud i mewn. Bydd y digwyddiad staff hwn yn cael ei gynnal ar 30 a 31 Awst rhwng 12.30 a 4.30pm, ac anogir staff i ymweld, i ddysgu rhagor am eu gofod gwaith newydd.

“Cawsom tua 150 o aelodau staff ar y safle ym misoedd cyntaf y flwyddyn fel eu bod yn gallu gweld graddfa’r datblygiad a chyfathrebu hyn gyda chydweithwyr. Mae’r ffaith bod y safle nawr yn llai tebyg i safle adeiladu, ac yn debycach i swyddfeydd, yn rhoi gwell cyfle i ni ddod â mwy o staff ar y safle a rhoi darlun cliriach iddynt o’u hamgylchedd gwaith newydd. Mae hwn yn gyfle nad yw’n cael ei ganiatáu’n arferol ar brosiectau adeiladu eraill, ac rydym yn gwerthfawrogi bod B&K wedi cydweithio i gynorthwyo staff Conwy i gael teimlad cynnar o’u hamgylchedd gwaith newydd” ychwanegodd Bleddyn Evans.

Mae Staff wedi cael eu diweddarau ar y cynnydd ar y safle yng Nghoed Pella drwy luniau misol ar dudalennau gwe Coed Pella. Mae lluniau diweddar yn dangos camau diweddarach y gosodiad mewnol, a gellir eu gweld drwy [glicio yma](#). Tra bo’r lluniau yn darparu cipolwg gwerthfawr i staff ar y cynnydd, a’r teimlad o ofod gwag, rydym yn gobeithio y bydd cyfle i ymweld â’r safle a phrofi’r gofod rhai misoedd cyn symud i mewn o gymorth gyda’r broses o newid.



Cydweithwyr o Gwasanaethau Rheoleiddio CBSC ar y safle

Nid yn unig bydd y Digwyddiad Staff yn gyfle i staff brofi eu hamgylchedd swyddfa newydd, ond hefyd yn gyfle i ddysgu rhagor am Ganllaw Defnyddwyr Staff Coed Pella, ynghyd â’r cyfleusterau ar gael o fewn Canol Tref Bae Colwyn. Bydd Swyddogion Tîm Prosiect Strategaeth Gofod Swyddfa a Thîm Prosiect Rheoli a Deiliadaeth yn cynnwys AD, TG ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gael i rannu gwybodaeth, ateb unrhyw gwestiynau a nodi problemau sydd angen eu datrys cyn y digwyddiad a symud Gwasanaethau i mewn. Ar gyfer staff sy’n dymuno cael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad, cysylltwch ag oas@conwy.gov.uk.

AR Y TRYWYDD IAWN

Fel rhan o’r gwaith ffordd ar Ffordd Conwy, roedd rhaid i gontractwyr peirianeg sifil lleol B&K, Jennings dynnu rhan o gledrau’r tram oedd wedi eu claddu o dan y briffordd. Byddai tramiau wedi teithio o flaen y safle, mewn cyfnod pan mai dyma oedd lleoliad Swyddfeydd y Cyngor a byddant wedi cysylltu Llandudno a Bae Colwyn. Teithiodd y tram olaf ar hyd y cledrau ddydd Sadwrn, 24 Mawrth 1956!



Y dramffordd ar hyd Ffordd Conwy, Bae Colwyn.

Rhoddodd B&K ran 10 troedfedd o'r cledrau fel rhodd i Gymdeithas Tramffordd Llandudno a Bae Colwyn. Mae'r gymdeithas nawr yn bwriadu rhoi sylw arbennig i'r trac ac ysgrifennu amdano, sy'n newyddion arbennig o dda.



Becky Uttley, B&K a Chymdeithas Tramffordd Llandudno a Bae Colwyn, a'r trac.

CYMERADWYAETH GAN IVOR GOODSITE

Bydd y sawl sy'n pasio heibio Ffordd Conwy wedi sylwi bod y byrddau hysbysu safle, lliwgar wedi cael eu tynnu. Roedd y byrddau hysbysu hyn yn enghraifft o gydweithio rhwng CBSC ac ysgolion lleol a'r artist Mai Thomas, gyda help B&K, ynghyd â chwmnïau lleol View Creative a Powlsons.

Cafodd yr holl waith caled ei gydnabod yng nghystadlaeth Rhaglen Byrddau Hysbysu Contractwyr Caredig Ivor Goodsite, wrth i fyrddau hysbysu Coed Pella gipio'r ail wobwr. Enillodd yr holl blant oedd wedi cymryd rhan wobrau am eu gwaith caled a fydd yn helpu i'w hatgoffa am eu cyfraniad i brosiect Coed Pella.



Cynrychiolwyr o B&K, Busnesau Lleol ac Ysgolion Lleol gyda'u medalau Ivor Goodsite.

CANOLFAN DATA AR BAPUR

Fel rhan o'r Rhaglen Foderneiddio, nid Coed Pella yw'r unig adeilad a fydd yn chwarae rôl sylweddol yn sut mae'r Cyngor yn moderneiddio'r ffordd y mae'n gweithio, ac yn defnyddio adeiladau addas i'r diben. Yn

gynnar iawn yn y rhaglen, nodwyd yr angen i grynhoi swm mawr iawn o gofnodion papur, a oedd yn cael eu cadw, nid yn unig mewn swyddfeydd, ond mewn nifer o adeiladau eraill, aneffeithiol. Yn hytrach na storfa bapur yng Nghoedd Pella, a fyddai'n ddefnydd aneffeithiol o ofod ar gyfer rhesymau ariannol, gweithredol ac adfywio, cafwyd cyfleuster ym Mharc Cae'r Seion, Conwy ar brydles. Bydd y cyfleuster 450 metr sgwâr yn darparu lle rhagorol i fodloni gofynion storfa bapur y Cyngor, ac yn rhyddhau gofod sylweddol o fewn y portffolio, a fydd yna'n cael ei ryddhau er budd ariannol ac adfywio.



Silffoedd gwag yn barod i dderbyn y cofnodion ar bapur.

"Rydym eisoes wedi dechrau symud ffeiliau i'r uned, sy'n darparu lle ar gyfer 16,200 o ffeiliau bocs. Rydym wedi sganio nifer fawr o gofnodion papur, ond oherwydd maint a natur rhai o'r cofnodion, mae gofyn am fwy o le, a thrwy eu lleoli mewn uned ddiwydiannol ar gyfradd o £47 y metr sgwâr, yn hytrach na rhentu swyddfa ar £156 y metr sgwâr, mae sawl mantais dros ddefnyddio'r dull hwn" meddai Geraint Williams, y Rheolwr Prosiect a ddarparodd y Ganolfan Data ar bapur, ynghyd â Brian Laing, Rheolwr Prosiect.

DIWEDDARIAD AR Y CAPSIWL AMSER

Derbyniwyd gwahoddiadau i rhanddeiliad gyflwyno cynigion ar gyfer Capsiwl Amser Coed Pella, ac erbyn hyn mae sawl un wedi cael eu dewis a'u cynig ar gyfer eu cynnwys mewn dau gapsiwl amser a fydd yn cael eu claddu ar y safle ar ddechrau mis Medi. Derbyniwyd cynigion gan staff y Cyngor, Ysgol Eirias. Cyngor Tref Bae Colwyn a Grŵp Treftadaeth Bae Colwyn a fydd yn derbyn gwahoddiad i weld y capsawlau amser yn cael eu claddu (fel y gweler isod).

